# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Cynghorydd: R L Penhale-Thomas** **Ward: Gorllewin Maesteg**

**Plaid: Annibynwyr Llynfi**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol gyntaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Gorllewin Maesteg ym mis Mai 2012 a'm hailethol ym mis Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 131 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi sicrhau fy mod ar gael yn hawdd i etholwyr – fel arfer o fewn 24 awr neu lai - dros y ffôn, drwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol ac yn bersonol ar amrywiaeth eang o faterion dros y deuddeg mis diwethaf. Mae'r rhain wedi amrywio o faterion ym maes tai a diogelu'r cyhoedd, adfywio a chynllunio i briffyrdd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Yn arbennig, rwyf wedi cael nifer mawr o bryderon ynghylch gwastraff ac ailgylchu, yn enwedig ar adeg sefydlu contract newydd yr awdurdod lleol yn yr haf.

Rwyf wedi cysylltu'n uniongyrchol ag (uwch) swyddogion ar faterion sy'n ei gwneud yn ofynnol cael sylw mwy brys ac ateb cyflym.

Rwyf hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r tîm plismona lleol ym Maesteg wrth nodi meysydd sy'n achosi problemau a chodi pryderon etholwyr gyda'r swyddogion perthnasol.

Rwy'n eiriolwr rheolaidd ar ran trigolion lleol gydag asiantaethau partner, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol, cymdeithasau tai a chyrff cyhoeddus, preifat ac elusennol eraill.

Rwy'n gweithio mewn partneriaeth â'm cydweithwyr yn Nwyrain Maesteg ac ar Gyngor Tref Maesteg ar faterion sy'n effeithio ar Gwm Llynfi ehangach.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Byddaf yn aml yn defnyddio dull ‘ymarferol’ o ran fy rôl fel cynghorydd. Yn ystod llifogydd mewn nifer o siopau lleol yng nghanol y dref ym mis Mai 2017, helpais sawl perchennog busnes a thrigolion i glirio dŵr llifogydd o'u heiddo yn ystod storm ddigyffelyb.

Rwyf wedi datblygu diddordeb brwd mewn mynd i'r afael â melltith eiddo preswyl a masnachol gwag yn ogystal ag yn rhaglen ddigideiddio'r awdurdod, gan sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn dal i fod ar gael i drigolion mewn ffordd sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf hefyd wedi chwarae rôl bwysig wrth graffu ar gyllideb y cyngor drwy eistedd ar y Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP), a roddodd gyfle i gwestiynu cyfarwyddwyr uchaf y cyngor. Fel arweinydd grŵp Annibynwyr Llynfi, rwyf hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd â chyd-arweinwyr grŵp i godi materion o bryder ar draws yr awdurdod ehangach.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Ar sawl achlysur drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cael y fraint o gefnogi'r digwyddiadau cerddorol a chorawl niferus ym Maesteg, gan gynnal nifer o achlysuron a chyngherddau elusennol ar gyfer achosion da.

Rwy'n falch o fod yn Is-gadeirydd Côr Cymysg Noteworthy a Chymdeithas Operatig Amatur Maesteg; aelod o Gymdeithas Ffrindiau Ysbyty Maesteg a Ffrindiau Parc Lles Maesteg; ac yn llywodraethwr yn ysgolion cynradd Plasnewydd a'r Santes Fair a San Padrig.

**Y Cynghorydd Ross L Penhale-Thomas** **Dyddiad: 04 06 18**